

Cylchlythyr ADAA (SALT)(Ionawr 2018) Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe

Mae Cylchlythyr SALT yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref, Ionawr ac Ebrill. Mae'n cynnwys eitemau o ddiddordeb wedi'u hamlygu gan dîm SALT a gwesteion â gwahoddiad.

Newyddion o'r Cyfarwyddwr

Fel sôn yn y cylchlythyr interim diwethaf, mae'r Flwyddyn Newydd wedi dod a rhai newidiadau i dîm SALT gyda Jacqui Neale (TEL) yn gadael ni yn anffodus a Suzie Pugh yn dechrau fel rhan o dîm PG Cert. Dwi'n sicr fyddwch chi hefyd yn falch i groesawi Suzie wrth iddi ymgartrefu i'w swydd newydd. Yn ychwanegol, rydym wedi rhannu'r rôl rheolaeth o ran llwyth gwaith. Mae Chris Hall nawr yn rheoli'r agwedd pedagogeg (PG Cert a Chydnabyddiaeth) ac mae Simon Gibbon yn rheoli agenda datblygiadol o waith SALT (TEL a CPD).

Hefyd, i'ch cadw'n wybodus am ddatblygiadau, mae Abertawe'n rhan o gynlluniau pilot Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) lefel pwnc sy'n cael eu rhedeg gan HEFCE ac maent yn gweithio gyda chydweithwyr ar y cyflwyniadau. Mae'r rhain i fod i gael eu cyflwyno ddiwedd mis Chwefror. Rydym eisoes yn dysgu o'r broses hon ac yn helpu i lunio dyfodol TEF.

Rydw i'n gobeithio byddwch chi'n mwynhau darllen gweddill y cylchlythyr yma, mae tîm SALT yn edrych ymlaen at gyfleoedd a heriau'r flwyddyn sydd i ddod gydag optimistaeth a ffydd a hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd Dda ar gyfer 2018.

Adborth y Cylchlythyr

Rydym wedi derbyn adborth arbennig ynglŷn â chyhoeddiad y cylchlythyr yma. Os oes rhywbeth hoffech weld wedi' cynnwys, cysylltwch naill a'i â mi neu Olygydd y Cylchlythyr Debbie Baff (Deborah.baff@abertawe.ac.uk) Nodwch, mae yna fformatau gwahanol o'r cylchlythyr ar gael (PDF a Saesneg) ar wefan SALT.

Yr Athro Jane Thomas, Cyfarwyddwr ADAA

Cynnwys

1. Cynhadledd Flynyddol SALT
2. Blackboard
3. Cymrodoriaeth yr AAU
4. Cyfleoedd CPD
5. 'Open Door'
6. Pytiau o Flog Cymunedol SALT

Cynhadledd SALT

Mae 2018 yn flwyddyn arbennig iawn i gynhadledd Dysgu ac Addysgu SALT gan ein bod ni'n dathlu ein degfed gynhadledd flynyddol! Rydym yn falch iawn i ddweud ein bod ni'n cynnal y digwyddiad ar Gampws y Bae am y tro cyntaf. Fydd yn cymryd lle ar y 18fed o Orffennaf 2018. Dilynwch yr hapnod #SUSALT18 a chadwch lygaid ar y wefan am y newyddion diweddarach gan gynnwys yr alwad am bapurau fydd yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Gallwch ymweld â gwefan y gynhadledd gan glicio ar y botwm isod.

[Cynhadledd SALT](#)

Newyddion Blackboard

O ddechrau mis Chwefror bydd tîm TEL (Dysgu trwy Dechnoleg) yn rhedeg sesiynau galw heibio ar y ddau Gampws. Bwriad y sesiynau galw heibio yw cyfle i gael cyfarfod un ac un. I gyweirio problemau Blackboard, siarad am syniadau, ychwanegu neu gael gwared â modylau, cael tamaid o gymorth gyda rhywbeth ayyb. Nid ydynt am gynnal sesiwn hyfforddiant sy'n parhau am awr... yn enwedig ar ddechrau'r tymor!

Am ragor o fanylion gwelwch ein Tudalen We Sesiynau Galw Heibio Blackboard gan ddefnyddio'r botwm isod:

[Sesiynau Galw Heibio Blackboard](#)

Cymrodoriaeth yr AAU

Niferoedd Cydnabyddiaeth yn codi

Ers cylchlythyr Hydref 2017, mae nawr gennym ni dros 370 o staff gyda chydabyddiaeth Cymrodoriaeth yr AAU - ar un o bedwar categori ddisgrifydd. Mae nawr gyda ni 6 Prif Gymrawd! Yr Athro Steve Brown, Pennaeth y Coleg Peirianeg yw'r diweddaraf. Darllenwch ragor am Siwrnai Prif Gymrawd Steve. Gwelir sut mae niferoedd yn newid yn ein cylchlythyr nesaf a sut rydym ni'n gweithio tuag at ein targed o 80% erbyn 2020.

Sut gallwch chi gael cydnabyddiaeth Cymrodoriaeth yr AAU?

Os gollwch chi'r cyfle i fynychu ein sesiynau gwybodaeth dros y pythefnos diwethaf, peidiwch wngalonni. Mae yna ragor o sesiynau ar gael ym mis Mawrth, mae atgofion yn cael eu danfon trwy Fwletin y Staff. Gallwch gadw lle trwy glicio ar 'Upcoming Events' ar wefan SALT. Os nad ydych chi'n gallu mynychu'r sesiynau ym mis Mawrth, gallwch gymryd rhan drwy ofyn am fynediad i fodiwl Blackboard.

Mae yna niferoedd penodol ar gyfer dyddiadau cau mewnol er mwyn gallu rhoi'r cymorth a mentora gorau phosib. Ystyriwch pryd fyddwch yn ceisio gan roi ddigon o amser i'ch hun - bydd angen rhwng 3 a 6 mis ac felly bydd eisiau i chi ddechrau'r broses nawr os rydych am gyflwyno cais y flwyddyn yma. Darganfyddwch ragor o fanylion, gan gynnwys sut i ofyn am gofrestrriad ar Blackboard, ar ein gwefan.

Ar gyfer ddarganfod y diweddaraf am gydnabyddiaeth yn Abertawe, gwelwch ein tudalen we Newyddion yr AAU.

Newyddion yr AAU

'Open Door'

Mae rhaglen CPD 'Open Door' yn lansio ar ddechrau Bloc Dysgu 2, gyda'r digwyddiad agoriadol ar ddiwedd mis Chwefror. Mae'n caniatu i athrawon gysylltu ac i arsylwi eu cydweithwyr yn dysgu gan helpu datblygiad ymarfer dysgu eu hun.

[Darganfyddwch ragor am y rhaglen wrth glicio yma.](#)

Mae yna amrywiaeth o sesiynau wedi' gynllunio ar gyfer Bloc Dysgu 2 ac mae yna ragor i ddod. Mae sesiwn cyntaf 'Open Door' ar y **7fed o Chwefror**.

Cyfleoedd CPD

Saith Nodwedd o Athro Da yn y Brifysgol

Mae rhaglen seminar a gweithdy 'Saith Nodwedd o Athro Da yn y Brifysgol' yn mynd ymlaen nawr ac mae'n boblogaidd iawn.

Lightboard ym Mheirianneg

Roedd y digwyddiad cyntaf, 'Lightboard ym Mheirianneg' wedi' gynnal ar gampws y Bae ar Dachwedd 22ain. Cyflwynir gan [Dr Richard Copley](#) a [Dr Karin Enser](#) o Goleg Peirianneg.

Fe wnaeth fynychwyr weld arddangosiad o addysgu newyddbeth ar ei orau, mewn ffurf sesiwn ysbrydoledig ar 'Lightboard'. Roedd y sesiwn yn dangos sut mae llawer o'r 'Saith Nodwedd (7Cs)' yn gallu cael eu defnyddio mewn dull penodol. [Darllenwch flog gan Suzie Pugh](#) sy'n crynhoi'r nodweddion, buddion a defnyddiau potensial o Lightboard (o fewn a thu allan i faes Peirianeg) neu gwylwch y fideo o'r digwyddiad yma ar E-Stream gan glicio'r botwm isod.

[Gall rhagor o fanylion am y 'Saith Nodwedd' gael ei ddarganfod yma.](#) Hoffwn ni glywed wrthoch chi os hoffech rannu os bod agwedd o'ch dysgu yn cwrdd ag un neu mwy o'r 'Saith Nodwedd'.

[Gwylwch fideo o'r digwyddiad.](#)

Mae yna ragor o Seminarau a gweithdai ar y ffordd. Cadwch y dyddiadau canlynol!

Cadwch y dyddiadau

Senario Dysgu ac Asesiad: Cau'r Bwlch

Bydd yr un nesaf yn cymryd lle ar Ddydd Mercher Chwefror 14eg 2018 yn ystafell hyfforddi SALT ar Gampws Singleton 1-2yp. Bydd yn cael ei gyflwyno gan enillwr ELTA Jonathan Hinkin ar y thema 'Senario Dysgu ac Asesiad: Cau'r Bwlch'. Bydd rhestr aros yn cael ei greu os fydd y sesiwn yn llenwi. Bydd y sesiwn hefyd yn cael ei recordio a rhoi ar SALT TV/E-Stream.

Dim ond ychydig o lefydd sydd ar gael ar gyfer y digwyddiad poblogaidd yma, felly i fynychu anogir staff i gadw lle trwy glicio ar y botwm isod.

[Cadw lle trwy Eventbrite](#)

Adborth Clywedol

Cadwch y dyddiad ar gyfer y digwyddiad Saith Nodwedd, gweithdy 'Adborth Clywedol' ar Ddydd Mercher 14eg o Fawrth 2018 yn ystafell hyfforddi SALT ar gampws Singleton, wedi cyflwyno gan Pete Hanratty a Sandy George o Ganolfan Llwyddiant Academaidd. Bydd manylion pellach ar gael yn fuan, trwy ein gwefan, bwletin staff a'n cyfrif Twitter @Susaltteam.

Blog Cymunedol Ionawr 2018

Mae tîm SALT yn ysgrifennu blogiau yn aml ar ein gwefan Blog Cymunedol. Gall blogiau o fis Ionawr gael eu darganfod isod.

Facilitating #BYOD4L Bring Your Own Device for Learning' gan Deb Baff
[Darllen Blog Deb yn llawn](#)

Looking Back, Facing Forward (2)' gan Helen Davies
[Darllen Blog Helen yn llawn](#)

'Looking Back, Facing Forward' gan Rhian Ellis
[Darllen Blog Rhian yn llawn](#)

[Darllenwch gweddill ein Blogiau Cymunedol](#)

Rydym yn edrych am ragor o gyfranwyr ar gyfer ein Blog Cymunedol. Os hoffech ysgrifennu blog gwestai, gyrrwch [e-bost i salt@abertawe.ac.uk](mailto:salt@abertawe.ac.uk)